TRAWSFYNYDD DECOMISSIONING SITE, GWYNEDD, WALES (MAGNOX LIMITED)

GRŴP RHANDDEILIAD SAFLE TRAWSFYNYDD

REPORT TO THE SITE STAKEHOLDER GROUP 19TH JUNE 2017

FOREWORD

This report is issued to the Site Stakeholder Group (SSG) to provide a summary of the regulatory activities of Natural Resources Wales (NRW) at the Trawsfynydd Decommissioning Nuclear Site. Accountability for the regulation of nuclear sites in Wales is held by "Natural Resources Wales" on behalf of the Welsh Government.

NRW and the Environment Agency (EA) have in place a contractual arrangement which enables NRW to draw upon the resources of the specialist EA Nuclear Regulation Group, to assist in the delivery of on-site inspection work and associated assessments under the Environmental Permitting Regulations 2016 (EPR 2016).

In terms of radioactive substances regulation, our primary role centres on the generation and disposal of radioactive waste. The environmental permit stipulates a number of conditions and limits within which the site must operate. Please see Annex 1 for further information on our role.



Introduction

This report covers the period since the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting in December 2016 up to 31 May 2017.

Radioactive substances regulation

We regulate radioactive waste disposals through environmental permits that contain limits and conditions aimed at minimising the volume of wastes produced and protecting the environment.

We check compliance with the permit by making regular inspections. These are recorded on "Radioactive Substances Compliance Assessment Reports" (RASCARs) which detail our findings and any non-compliances; our RASCAR reports are placed on the Public Register.

We also maintain regular contact with the operator, at meetings, by telephone or email, in addition to formal correspondence.

Radioactive discharges

We receive quarterly reports from Trawsfynydd site on their monthly radioactive discharges. These are also placed on the Public Register.

All radioactive discharges from Trawsfynydd remain within the limits set in our radioactive substances permit.

Environmental monitoring

Magnox Ltd is required to carry out routine environmental monitoring under their radioactive substances permit. This involves taking a wide range of environmental samples from locations in the vicinity of the site and analysing them for radioactivity content.

The Environment Agency (on behalf of NRW) also undertakes an independent programme of environmental monitoring across Wales & England. The results are reported in the Radioactivity in Food and the Environment (RIFE) report, which can be found at: http://www.food.gov.uk/science/surveillance/radiosurv/rife/.

The latest RIFE report (covering calendar year 2015) was published in October 2016.

Recent results from both programmes are in line with previous periods and show no cause for concern.

Key regulatory meetings, site inspections & look ahead to planned regulatory activities

Date	Purpose
5-6 Dec 2016	• SSG & routine Site Inspection visit
10 Jan 2017	• Routine liaison mtg. between NRW & EA regarding regulation of Trawsfynydd & Wylfa (held at NRW, Buckley Office)
12 Jan	• Workshop Mtg with Magnox Ltd, NDA, NRW, EA & SEPA re: GRR Trial, Warrington
25 Jan	• Routine Site Inspection
26 Jan	• GRR Trial: TESTG Mtg Nos 6, Trawsfynydd
2 Feb	• Presentation on the GRR Trial to Gwynedd Council by NRW, EA & ONR
6- 7 Mar	• Joint visit with ONR for a routine Site Inspection visit & attendance at first "Trawsfynydd Waste Strategy" meeting.
Mar-Apr	• Submission of first iteration GRR documents for our review as part of the GRR Trial
25-27 Apr 2017	• Joint visit with ONR for routine Site Inspection visit
26 Apr	• GRR Trial: TESTG Mtg Nos 7, Trawsfynydd
May	• Completion of our "Site Environmental Report" (SER) which sets out our regulatory objectives for the FY 17_18.
Look ahead	
June	• Issue SER regulatory review and planning document for FY17_18 (referenced above)
June	• Issue to Magnox Ltd of review comments on the first iteration reports for Trawsfynydd GRR Trial
19 Jun	• Re-arranged (post-election) SSG Mtg. R Clarke unable to attend.
End June	• Routine Site Inspection Visit planned
5-6 July	• Welsh Sites Annual Review of Safety, Security and Environment (ARoSSE) in conjunction with ONR
20 July	• GRR Trial: TESTG Mtg Nos 8, Trawsfynydd
Aug	• Routine Site Inspection Visit planned, focus on effluent discharge systems
Sept	• Routine Site Inspection Visit

	planned, focus on shift transition project and internal environmental assurance project
Nov	• Routine Site Inspection Visit planned, focus on Asset Management
4-5 Dec	• SSG & routine Site Inspection Visit, focus on solid radioactive waste
6 Dec	• Welsh Sites Joint Regulators Meeting in conjunction with ONR

ENFORCEMENT ACTIVITY

Following an Environment Agency inspection at Hinkley Point A, which identified that alarm levels in clearance monitors had not been reviewed/revised in a timely manner following approval of an updated waste fingerprint, Trawsfynydd and Wylfa sites both identified similar issues with the fingerprints and alarm levels being used within their Rados Waste Chamber Gamma Monitoring devices (hereafter referred to as the RADOS). At Trawsfynydd the most recent "clearance level" fingerprint & alarm level review had been undertaken in April 2014, but a lack of adequate local arrangements meant that the relevant plant operated on out-dated values derived in April 2012.

The purpose of "clearance monitoring" is to demonstrate that items or quantities of waste contain such low levels of radioactivity that they are 'out of scope' of the radioactive substances regulation. Waste which is successfully cleared is subsequently managed as non-radioactive waste.

At Trawsfynydd, there was no potential for waste which was 'in scope' to be incorrectly categorised as 'out of scope'. This is due to the revised fingerprints (of April 2014) being marginally less conservative than those deployed in the 3 RADOS machines from April 2012.

While there were no environmental consequences of this event, it represents a loss of control. The periodic review of fingerprints was not underpinned by adequate local procedures to update equipment. Local staff undertook the work required as a consequence of their professional knowledge, but had no administrative prompts to manage it. Arrangements depended on busy individuals remembering to update alarms and necessary work was not completed.

Consistent with our findings for a similar event at Wylfa at this time, we have concluded that it constitutes non-compliances with the radioactive substances permit and a RASCAR was issued with a "site warning."

Magnox Ltd and Trawsfynydd site has responded promptly and effectively, committing to a number of corrective actions.

Current regulatory issues & good practice

- Issues with the monitoring of gaseous discharges from Reactor 2 are ongoing. The operator continues to use pessimistic discharge estimations. Nevertheless, the operator reports that assistance from the corporate subject matter expert has been sought to assist in their understanding of the erroneously low discharge readings (non-detects) being recorded. We continue to keep this matter under review and encourage the operator to resolve.

- During 2015 we identified "legacy" radioactive wastes present in LLW ISO's on site but lacking appropriate characterisation / segregation to consign. We requested the operator confirm the extent of these and develop a programme of work to resolve the appropriate treatment or disposal route. Good progress is being made by the Trawsfynydd Solid LLW Team on this.

- In conjunction with our colleagues in ONR we continue to be involved in the operator's assessment of the viability of a potential future change to shift operations at the site i.e. potentially shifting from 24 hour shift coverage to "day-shift" only. We have sought risk assessment of any environmental implications and any necessary revisions to alarm, accident and emergency arrangements.

- We continue to keep under review the implementation of revised site staffing baselines (to ensure permit compliance).

It is important that there is no reliance placed on individuals and that teams involved in environmental permit compliance are demonstrably Suitably Qualified Experienced Persons (SQEP) staff.

(GRR) – Trial Project: Guidance for the Release from Regulation of Nuclear Sites

We continue to actively support the GRR Trial work at Trawsfynydd in conjunction with our colleagues at the site, NDA and ONR, as well as with Snowdonia National Park.

We received the first draft of technical assessment reports specific to Trawsfynydd during March & April 2017. We have undertaken a technical review of these.

Our review highlights a number of queries regarding the approach taken. Overall, the approach appears technically sound and while the submissions do not definitively show that radiation doses to people & environment are below the GRR safety criteria, given the conservatisms adopted, we would anticipate Magnox Ltd being able to make a case to us that is compliant with our GRR requirements to protect people & environment.

We will be providing back to Magnox Ltd our review comments in June 2017 and we will continue to work with them and other stakeholders in the trial.

Non-Radioactive Substances Regulation (NRW)

- In January 2017 granular waste from steam cleaning operations was wrongly deposited into Final Delay Tank 2 (FDT 2) at the Trawsfynydd Site Sewage Treatment Works. Effluent from the FDTs is permitted for transfer into Trawsfynydd Lake.

  The sample was within the conventional EPR permit requirements for the site, however, the waste material should not have been deposited into the FDT (this was done in error).

  The NRW Environment Officer has been involved to ensure that arrangements are adequate for the management and disposal of non-radioactive sludge and other such materials.

- It will have been apparent during the site tour in advance of the SSG that the physical features of the site have changed significantly with the demolition of the former admin offices, stores and workshop building. Both the NRW Environment Officer and the Nuclear Regulator have facilitated the conventional waste management issues associated with this work.

No other significant matters to report.

EPR-RSR Permit Update

A varied NRW permit was issued in August 2016.

NON-ROUTINE MATTERS

Events / Incidents / Investigations

- In May 2017 we received an investigation report into the non-acceptance by the Low Level Waste Repository (LLWR) in West Cumbria of ponds scabbling project waste from Trawsfynydd site, due to scabbled waste containers (SWCs) within the consignment being non-compliant with the LLWR Waste Acceptance Criteria (WAC) due to discrete items limits.

  A failure to ensure consignment of radioactive waste in accordance with the receiving site acceptance criteria is a permit non-compliance.

  Trawsfynydd and LLWR Ltd continue to work closely together to resolve this matter and we note the hard-work undertaken by the Trawsfynydd Solid LLW Waste Team to progress the corrective actions required.

  We will review the investigation report and come to a decision on our enforcement response during June-July 2017.

- An operator investigation is nearing completion to evaluate the site's engineering assurance of modifications to gaseous discharge sampling equipment. We have requested this as soon as it has been issued and we will review this. It is reported to us that the

accuracy of discharge data is not affected.

CONTACT DETAILS

Should you have any queries please do not hesitate to contact:

Paul Wright
Arweinydd Tîm Rheoliad Diwydiant
Industry Regulation Team Leader

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle, Sir Y Fflint, CH7 3AJ
Natural Resources Wales,Chester Road, Buckley, Flintshire CH7 3AJ
Ffôn / Tel: 03000 653890

E-bost:

paul.wright@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email:

paul.wright@naturalresourceswales.gov.uk

or

Richard Clarke,
Nuclear Regulator
Environment Agency,

Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria, CA11 9BP

Ffôn / Tel: 020 3025 5787

Ffôn symudol / Mobile: 07887 634 371

Email / E-bost:

richardj.clarke@environment-agency.gov.uk

END.

ANNEX 1

THE ROLE OF NATURAL RESOURCES WALES AT NUCLEAR SITES

Operating and cleaning up nuclear sites generates radioactive and non-radioactive wastes. Our role as the environmental regulator in Wales is to ensure that the impact of those wastes on people and the environment, now and in the future, is as small as it can be. We also aim to prevent pollution, enhance the environment, and contribute to sustainable development.

We inspect nuclear sites and assess proposals from operators in order to provide assurance that the operator is complying with the limits and conditions of the permits we issue under the Environmental Permitting Regulations, 2016 and other relevant legislation and policy.

We supplement direct regulation with a partnership approach, working with the operators, the Nuclear Decommissioning Authority (NDA), nuclear specialists within the Environment Agency (EA) and the Scottish Environment Protection Agency (SEPA), and the Office for Nuclear Regulation (ONR) to solve problems jointly.

We expect operators to comply fully with all relevant legislative requirements and permits. If this does not happen, we will not hesitate to use our enforcement powers to ensure that action is taken to protect the environment or to secure compliance.

In summary our objectives are to:

- Ensure that environmental permits are up to date, flexible and fit for purpose and that they drive environmental improvement
- Assess compliance with the limits and conditions of the permits
- Reduce risks to the environment and avoid creating further legacies
- Ensure that integrated waste strategies continue to improve
- Ensure that solid waste is packaged in a form suitable for disposal
- Ensure that infrastructure and assets are maintained to minimise environmental impact
- Develop guidance on Best Available Techniques (BAT)
- Influence NDA so that they provide appropriate direction to operators to minimise waste and improve environmental outcomes
- Encourage integrated management of fuel and nuclear materials so as to prevent or minimise the potential environmental impacts
- Ensure land and groundwater contaminated by radioactivity or other pollutants is managed appropriately and protect land and groundwater from further contamination
- Monitor and assess organisational change to ensure that environmental performance is maintained

In terms of Decommissioning on nuclear sites, Natural Resources Wales and the Environment Agency have produced joint guidance on our requirements, which can be found here: https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities

SAFLE DATGOMISIYNU TRAWSFYNYDD, GWYNEDD, CYMRU (MAGNOX CYFYNGEDIG)

GRŴP RHANDDEILIAD SAFLE TRAWSFYNYDD

ADRODDIAD AR GYFER GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE 19EG MEHEFIN 2017

RHAGAIR

Cylchredwyd yr adroddiad hwn i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (GRhS) er mwyn darparu crynodeb ynglŷn â gweithgareddau rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Safle Datgomisiynu Niwclear Trawsfynydd. "Cyfoeth Naturiol Cymru" sy'n atebol am reoleiddio safleoedd niwclear yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae trefniant cytundebol rhwng CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) sy'n galluogi CNC i dynnu ar adnoddau Grŵp Rheoleiddio Niwclear arbenigol yr AA, er mwyn cynorthwyo wrth gyflawni gwaith archwilio ac asesiadau cysylltiedig ar y safle o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 (RhTA 2016).

Yn nhermau rheoleiddio sylweddau ymbelydrol, y mae ein prif swyddogaeth yn canolbwyntio ar gynhyrchu a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Mae'r drwydded amgylcheddol yn mynnu bod nifer o amodau a chyfyngiadau y mae'n rhaid i'r safle weithredu oddi mewn iddyn nhw. Gweler Atodiad 1 os gwelwch yn dda am fwy o wybodaeth ynglŷn â'n swyddogaeth.



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle (GRhS) ym mis Rhagfyr 2016 hyd at 31 Mai 2017.

Rheoleiddio sylweddau ymbelydrol

Rydym ni'n rheoleiddio gwaredu gwastraff ymbelydrol drwy drwyddedau amgylcheddol sy'n cynnwys cyfyngiadau ac amodau wedi'u hanelu at leihau'r maint o wastraff a gynhyrchwyd ynghyd â gwarchod yr amgylchedd.

Rydym ni'n gwirio bod cydymffurfiaeth â'r drwydded drwy wneud archwiliadau rheolaidd. Mae'r rhain yn cael eu cofnodi mewn "Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth â Sylweddau Ymbelydrol" (RASCARs) sy'n manylu ar ein canfyddiadau ac unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio; y mae ein hadroddiadau RASCAR yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Yn ogystal, rydym ni'n cysylltu yn rheolaidd â'r gweithredwr, mewn cyfarfodydd, dros y ffôn neu drwy e-bost, yn ogystal â gohebu yn ffurfiol.

Gollyngiadau ymbelydrol

Rydym ni'n derbyn adroddiadau gan safle Trawsfynydd ynglŷn â'u gollyngiadau ymbelydrol bob mis. Mae'r rhain yn ogystal yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Mae'r holl ollyngiadau o Drawsfynydd yn parhau o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn ein trwydded sylweddau ymbelydrol.

Monitro Amgylcheddol

Mae angen i Magnox Cyf. wneud gwaith monitro amgylcheddol rheolaidd o dan eu trwydded sylweddau ymbelydrol. Y mae hyn yn cynnwys cymryd amrediad eang o samplau amgylcheddol o leoliadau yng nghyffiniau'r ardal y safle a'u dadansoddi nhw am gynnwys ymbelydrol.

Yn ogystal, y mae Asiantaeth yr Amgylchedd (ar ran CNC) yn cynnal rhaglen fonitro amgylcheddol annibynnol drwy Gymru a Lloegr. Mae'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn yr adroddiad Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (YBAA), a gellir eu gweld yn http://www.food.gov.uk/science/surveillance/radiosurv/rife/.

Cyhoeddwyd adroddiad diwethaf YBAA (sy'n cynnwys y flwyddyn 2015) ym mis Hydref 2016.

Mae'r canlyniadau diweddar ar gyfer y ddwy raglen yn unol â chyfnodau blaenorol ac nid ydyn nhw yn dangos unrhyw achos i bryderu.

Cyfarfodydd rheoleiddio allweddol, archwiliadau safle ac edrych ymlaen at weithgareddau rheoleiddiol sydd wedi cael eu cynllunio

Dyddiad	Diben
5-6 Rhagfyr 2016	• GRhS ac ymweliad rheolaidd i Archwilio'r Safle
10 Ionawr 2017	• Cyfarfod cysylltu rheolaidd rhwng CNC ac AA ynglŷn â rheoleiddio Trawsfynydd a Wylfa (a gynhaliwyd yn CNC, Swyddfa Bwcle)
12 Ionawr	• Cyfarfod Gweithdy gyda Magnox Cyf, ADN, CNC, AA a SEPA ynglŷn â: Prawf CRhR, Warrington
25 Ionawr	• Archwiliad rheolaidd o'r Safle
26 Ionawr	• Prawf CRhR: Cyfarfod TESTG Rhif 6, Trawsfynydd
2 Chwefror	• Cyflwyniad ar y Prawf CRhR i Gyngor Gwynedd gan CNC, AA a SRN
6- 7 Mawrth	• Ymweliad ar y cyd gyda SRN am ymweliad rheolaidd er mwyn Archwilio'r Safle a mynychu cyfarfod cyntaf ynglŷn â "Strategaeth Gwastraff Trawsfynydd".
Mawrth-Ebrill	• Cyflwyno'r fersiwn gyntaf o ddogfennau CRhR ar gyfer ein hadolygiad fel rhan o'r Prawf CRhR.
25-27 Ebrill 2017	• Ymweliad ar y cyd gyda SRN ar gyfer ymweliad rheolaidd i Archwilio'r Safle
26 Ebrill	• Prawf CRhR: Cyfarfod TESTG Rhif 7, Trawsfynydd
Mai	• Cwblhau ein "Adroddiad Amgylcheddol ar y Safle" (AAS) sy'n amlinellu ein hamcanion rheoleiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 17-18.
Edrych ymlaen	
Mehefin	• Cyhoeddi adolygiad rheoleiddiol AAS a dogfen gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol 17-18 (a gyfeiriwyd ato uchod)
Mehefin	• Cyflwyno sylwadau am yr adolygiad i Magnox Cyf ynglŷn â'r fersiwn gyntaf o'r adroddiadau ar gyfer Prawf CRhR Trawsfynydd

19 Mehefin	• Cyfarfod GRhS wedi cael ei aildrefnu (ar ôl yr etholiad). R Clarke yn methu bod yn bresennol.
Diwedd Mehefin	• Ymweliad Rheolaidd i Archwilio'r Safle wedi cael ei gynllunio
5-6 Gorffennaf	• Adolygiad Blynyddol o Ddiogelwch, Diogeledd ac Amgylchedd (ABoDDA) y Safleoedd yng Nghymru mewn cydweithrediad â SRN
20 Gorffennaf	• Prawf CRhR: Cyfarfod TESTG Rhif 8, Trawsfynydd
Awst	• Ymweliad Rheolaidd i Archwilio'r Safle wedi cael ei gynllunio, a fydd yn canolbwyntio ar systemau gollwng gwastraff
Medi	• Ymweliad Rheolaidd i Archwilio'r Safle wedi cael ei gynllunio, yn canolbwyntio ar brosiect trawsnewid sifftiau a phrosiect sicrwydd amgylcheddol mewnol
Tachwedd	• Ymweliad Rheolaidd i Archwilio'r Safle wedi cael ei gynllunio, a fydd yn canolbwyntio ar Reoli Asedau
4-5 Rhagfyr	• GRhS ac Ymweliad Rheolaidd i Archwilio'r Safle, a fydd yn canolbwyntio ar wastraff ymbelydrol solid
6 Rhagfyr	• Cyfarfod ar gyfer Cyd-reoleiddwyr Safleoedd Cymru mewn cydweithrediad â SRN

GWEITHGAREDD GORFODI

Yn dilyn archwiliad gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Hinkley Point A, a oedd yn nodi nad oedd lefelau larwm mewn monitorau clirio wedi cael eu hadolygu/diwygio mewn modd amserol yn dilyn cymeradwyo olion bysedd gwastraff a oedd wedi cael eu diweddaru, roedd safleoedd Trawsfynydd ac Wylfa wedi nodi problemau tebyg, gyda'r olion bysedd a lefelau larwm a oedd yn cael eu defnyddio o fewn eu dyfeisiau Rados ar gyfer Monitro Gama y Siambrau Gwastraff (a gyfeirir atyn nhw o hyn ymlaen fel RADOS). Yn Nhrawsfynydd, gwnaed yr adolygiad olion bysedd a lefel larwm "lefel cliriad" yn Ebrill 2014, ond roedd diffyg trefniadau lleol digonol yn golygu bod y safle perthnasol yn gweithredu ar werthoedd a oedd wedi dyddio ac yn tarddu o Ebrill 2012.

Diben "monitro cliriad" yw dangos bod eitemau neu feintiau o wastraff yn cynnwys lefelau mor isel o ymbelydredd fel eu bod 'allan o gwmpas' o reoliad sylweddau ymbelydrol. Mae gwastraff sy'n cael ei glirio yn llwyddiannus yn cael ei reoli o ganlyniad i hynny fel gwastraff nad yw'n ymbelydrol.

Yn Nhrawsfynydd, nid oedd unrhyw botensial ar gyfer gwastraff a oedd 'o fewn cwmpas' i gael ei gategoreiddio fel 'allan o gwmpas'. Y mae hyn oherwydd bod yr ôl-bysedd diwygiedig (o Ebrill 2014) yn llai ceidwadol o ychydig na'r rhai hynny a ddefnyddiwyd yn y tri peiriant RADOS o Ebrill 2012.

Tra nad oedd unrhyw ganlyniadau amgylcheddol i'r digwyddiad hwn, y mae'n cynrychioli diffyg rheolaeth. Nid oedd adolygiad cyfnodol yr olion bysedd yn cael ei ategu gan weithdrefnau lleol digonol i ddiweddaru'r cyfarpar. Bu'r staff lleol yn gwneud y gwaith a oedd ei angen, o ganlyniad i'w gwybodaeth broffesiynol, ond ni chawson nhw unrhyw anogaeth gweinyddol i'w reoli. Roedd trefniadau yn dibynnu ar unigolion prysur yn cofio i ddiweddaru'r larymau ac ni chwblhawyd y gwaith angenrheidiol.

Yn gyson â'n canfyddiadau ar gyfer ddigwyddiad tebyg yn y Wylfa yr adeg hon, rydym ni wedi dod i'r casgliad bod hyn yn golygu peidio â chydymffurfio â'r drwydded sylweddau ymbelydrol a rhoddwyd RASCAR gyda "rhybudd safle".

Mae Magnox Cyf a safle Trawsfynydd wedi ymateb yn brydlon ac yn effeithiol, gan ymrwymo i nifer o gamau gweithredu cywirol.

Materion rheoleiddiol ac ymarfer da cyfredol

- Mae problemau gyda monitro gollyngiadau nwyol o Adweithydd 2 yn parhau. Mae'r gweithredwr yn parhau i ddefnyddio amcangyfrifon gollyngiadau pesimistaidd. Er hynny, y mae'r gweithredwr yn adrodd bod cymorth wedi'i geisio gan yr arbenigwr pwnc corfforaethol i gynorthwyo eu dealltwriaeth o ddarlleniadau gollyngiadau isel trwy gamgymeriad (dim diffygion). Rydym ni'n parhau i gadw'r mater o dan adolygiad ac yn annog y gweithredwr i'w ddatrys.

- Yn ystod 2015, nodwyd bod gwastraffau ymbelydrol "etifeddol" yn bresennol yn yr

ISOau Gwastraff Lefel Isel (GLI) ar y safle, ond eu bod yn ddiffygiol mewn disgrifiad / gwahaniad priodol ar gyfer eu hanfon. Gwnaethom ofyn i'r gweithredwr gadarnhau faint ohonyn nhw a oedd yn bresennol a datblygu rhaglen waith er mwyn penderfynu ar y llwybr priodol ar gyfer eu trin neu'u gwaredu. Mae cynnydd da ynglŷn â hyn cael ei wneud gan Dîm Gwastraff Lefel Isel Solid Trawsfynydd.

- Mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr yn SRN, rydym yn parhau i fod yn cymryd rhan yn asesiad y gweithredwr o ddichonoldeb newid posibl yn y dyfodol i weithrediadau sifft ar y safle h.y. symud o sifft 24 awr o bosibl i "sifft ddydd" yn unig. Rydym wedi ceisio asesu risg ynglŷn ag unrhyw oblygiadau amgylcheddol ac unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i drefniadau larwm, damweiniau ac argyfyngau.
- Rydym yn parhau i gadw'r defnydd o nifer sylfaenol diwygiedig o staff ar y safle o dan adolygiad (er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded).

  Mae'n bwysig nad oes unrhyw ddibyniaeth yn cael ei roi ar unigolion, a bod timau sydd ynghlwm â chydymffurfiaeth y drwydded amgylcheddol, yn staff sydd wedi dangos eu bod yn Unigolion Profiadol sy'n Briodol Gymwys (UPBG**)**.

(CRhR) – Prosiect Prawf: Canllawiau ar gyfer Rhyddhau Safleoedd Niwclear o Reoleiddio

Rydym ni'n parhau i gefnogi gwaith Prawf y GRR yn weithredol yn Nhrawsfynydd mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr ar y safle, ADN a SRN, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri.

Rydym ni wedi derbyn y drafft cyntaf o'r adroddiadau asesu technegol sy' benodol i Drawsfynydd yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2017. Rydym wedi cynnal adolygiad technegol ohonyn nhw.

Mae ein hadolygiad yn tynnu sylw at nifer o ymholiadau ynglŷn â'r dull a gymerwyd. Yn gyffredinol, y mae'r dull yn ymddangos yn dechnegol gadarn a thra nad yw'r cyflwyniadau yn dangos yn derfynol bod y dognau o ymbelydredd i bobl a'r amgylchedd yn is na meini prawf diogelwch CRhR, o gofio'r dulliau ceidwadol a fabwysiadwyd, byddwn yn rhagweld y byddai Magnox Cyf yn gallu gwneud achos inni sy'n cydymffurfio â'n gofynion CRhR er mwyn gwarchod pobl a'r amgylchedd.

Byddwn yn rhoi ein sylwadau ynglŷn â'n hadolygiad i Magnox Cyf ym mis Mehefin 2017 a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw a rhanddeiliaid eraill yn y prawf.

Rheoleiddio Sylweddau nad ydyn nhw'n Ymbelydrol (CNC)

- Ym mis Ionawr 2017, roedd gwastraff gronynnol o waith glanhau â stêm wedi'i roi yn anghywir i Danc Oedi Terfynol 2 (TOT2) yn y Gwaith Trin Carthion ar Safle Trawsfynydd. Caniateir trosglwyddo gollyngiadau o'r TOTau i Lyn Trawsfynydd.

  Roedd y sampl o fewn gofynion trwydded RhTA confensiynol ar gyfer y safle; fodd bynnag, ni ddylai'r deunydd gwastraff fod wedi cael ei roi yn y TOT (gwnaed hyn mewn camgymeriad).

  Bu Swyddog Amgylchedd CNC ynghlwm â'r mater er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn ddigonol ar gyfer rheoli a gwaredu llaid ymbelydrol a deunyddiau eraill o'r fath.
- Byddai wedi bod yn amlwg yn ystod y daith o'r safle cyn y GRhS bod nodweddion ffisegol o'r safle wedi newid yn sylweddol wrth ddymchwel y swyddfeydd gweinyddol, y storfeydd ac adeilad y gweithdy blaenorol. Y mae Swyddog Amgylchedd CNC a'r Rheoleiddiwr Niwclear wedi hwyluso'r problemau rheoli gwastraff confensiynol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Nid oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w hadrodd.

Y Newyddion Diweddaraf ynglŷn â Thrwydded RhTA-RhSY

Rhoddwyd trwydded wahanol gan CNC ym mis Awst 2016.

MATERION NAD YDYN NHW'N RHEOLAIDD

Digwyddiadau / Helyntion / Ymchwiliadau

- Ym mis Mai 2017, derbyniwyd adroddiad ymchwilio gennym ynglŷn â'r Storfa Gwastraff Lefel Isel (LLWR) yng Ngorllewin Cumbria yn gwrthod derbyn gwastraff prosiect brasnaddu pyllau o safle Trawsfynydd, oherwydd nad oedd cynwysyddion gwastraff wedi'i frasnaddu (CGFau) o fewn y llwyth yn cydymffurfio â Meini Prawf Derbyn Gwastraff (MPDG) LLWR oherwydd cyfyngiadau ar eitemau arwahanol.

  Nid yw methu â sicrhau anfon gwastraff ymbelydrol yn unol â meini prawf y safle sy'n ei dderbyn yn cydymffurfio â'r drwydded.

  Mae Trawsfynydd a LLWR Cyf, yn parhau i weithio yn agos gyda'i gilydd er mwyn datrys y mater hwn ac rydym ni'n nodi'r gwaith caled a wnaed gan Dîm Gwastraff GLI Solid Trawsfynydd er mwyn gwneud cynnydd â'r camau gweithredu cywirol sydd eu hangen.

  Byddwn ni'n adolygu'r adroddiad ymchwiliol a dod i benderfyniad ynglŷn â'n hymateb gorfodi yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2017.

- Mae ymchwiliad gan y gweithredwr bron â dod i ben er mwyn gwerthuso sicrwydd peirianyddol y safle ynglŷn â chyfarpar samplu gollyngiadau nwy. Rydym ni wedi gofyn am hyn unwaith y bydd wedi cael ei gyhoeddi, a byddwn yn adolygu hyn. Adroddwyd wrthym nad yw manwl gywirdeb y data gollyngiadau wedi cael ei effeithio.

MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, y mae croeso i chi gysylltu â:

Paul Wright
Arweinydd Tîm Rheoliad Diwydiant
Industry Regulation Team Leader

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle, Sir Y Fflint, CH7 3AJ
Natural Resources Wales, Chester Road, Buckley, Flintshire CH7 3AJ
Ffôn / Tel: 03000 653890

E-bost:

paul.wright@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email:

paul.wright@naturalresourceswales.gov.uk

neu

Richard Clarke,
Rheoleiddiwr Niwclear
Asiantaeth yr Amgylchedd,

Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria, CA11 9BP

Ffôn / Tel: 020 3025 5787

Ffôn symudol / Mobile: 07887 634 371

Email / E-bost:

richardj.clarke@environment-agency.gov.uk

DIWEDD.

ATODIAD 1

SWYDDOGAETH CYFOETH NATURIOL CYMRU AR SAFLEOEDD NIWCLEAR

Mae gweithredu a glanhau safleoedd niwclear yn cynhyrchu gwastraffau ymbelydrol ac anymbelydrol. Ein swyddogaeth ni fel y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru yw sicrhau bod effaith y gwastraffau hynny ar bobl a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol, mor fychan ag y gall fod. Yn ogystal, rydym ni'n anelu at atal llygredd, gwella'r amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Rydym yn arolygu safleoedd niwclear ac yn asesu cynigion gan weithredwyr er mwyn darparu sicrwydd bod y gweithredwr yn cydymffurfio â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau yr ydym ni'n eu rhoi o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, 2016 a deddfwriaeth a pholisi perthnasol arall.

Rydym yn ychwanegu at reoleiddiad uniongyrchol drwy ddull partneriaeth, gan weithio â'r gweithredwyr, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (ADN), arbenigwyr niwclear o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) a'r arbenigwyr niwclear o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) ac Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd yn yr Alban (SEPA) a'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (SRN), er mwyn datrys problemau ar y cyd.

Rydym yn disgwyl i weithredwyr gydymffurfio yn llawn â holl ofynion a thrwyddedau'r ddeddfwriaeth berthnasol. Os na fydd hyn yn digwydd, ni fyddwn ni'n oedi cyn defnyddio ein pwerau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd er mwyn gwarchod yr amgylchedd neu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

I grynhoi, ein hamcanion yw:

- Sicrhau bod trwyddedau amgylcheddol yn gyfredol, yn hyblyg ac yn addas i'r diben a'u bod yn sbarduno gwellhad amgylcheddol
- Asesu cydymffurfiaeth â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau
- Lleihau'r risgiau i'r amgylchedd ac osgoi creu etifeddiaethau pellach
- Sicrhau bod strategaethau gwastraff integredig yn parhau i wella
- Sicrhau bod gwastraff solid yn cael ei becynnu mewn ffurf briodol ar gyfer ei waredu
- Sicrhau bod isadeiledd ac asedau yn cael eu cynnal er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd
- Datblygu canllawiau ynglŷn â'r Technegau Gorau sydd ar Gael (TGG)
- Dylanwadu ar yr AND fel eu bod yn darparu cyfeiriad priodol i weithredwyr ynglŷn â sut i leihau gwastraff a gwella canlyniadau amgylcheddol
- Annog rheoli tanwydd a deunyddiau niwclear yn integredig er mwyn atal neu leihau'r effeithiau amgylcheddol posibl
- Sicrhau bod tir a dŵr daear sydd wedi cael eu difwyno gan ymbelydredd neu lygrwyr eraill yn cael eu rheoli'n briodol a sicrhau bod tir a dŵr daear yn cael eu gwarchod oddi wrth ddifwyno pellach
- Monitro ac asesu newid sefydliadol er mwyn sicrhau bod perfformiad amgylcheddol yn cael ei gynnal

Yn nhermau Datgomisiynu ar safleoedd niwclear, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynhyrchu canllawiau ar y cyd ynglŷn â'n gofynion a gellir eu gweld yma: https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities